# Uwch-gŵynion o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023: canllawiau drafft

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 8 Medi 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 3 Tachwedd 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cy/online-safety/illegal-and-harmful-content/consultation-draft-guidance-for-super-complaints-under-the-online-safety-act-2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ..... 3

2. Canllawiau drafft: uwch-gŵynion diogelwch ar-lein ..... 5

## Atodiad

A1. Asesiadau effaith ..... 16

A2. Y fframwaith cyfreithiol ..... 18

A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 20

A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ..... 23

A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ..... 24

A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 26

# 1. Trosolwg

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig (y DU). Mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu sy'n cael ei ddarlledu, radio, a gwasanaethau ar-lein. Cawsom ein penodi'n rheoleiddiwr diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') ym mis Hydref 2023.[1]

1.2 Rydym wedi drafftio canllawiau i helpu sefydliadau cymwys i wneud 'uwch-gŵyn' i Ofcom ynghylch materion diogelwch ar-lein, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac is-ddeddfwriaeth berthnasol.[2] Rydym nawr yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y canllawiau drafft, a byddwn yn ystyried eich barn cyn i ni gwblhau'r canllawiau'n derfynol ddechrau 2026.

1.3 Pwrpas y canllawiau yw gwneud y canlynol mor glir â phosibl, o fewn telerau'r Ddeddf:

- Beth yw uwch-gŵynion;
- Rôl uwch-gŵynion yn null rheoleiddio Ofcom ar gyfer diogelwch ar-lein;
- Pa sefydliadau sy'n gymwys i gyflwyno uwch-gŵyn;
- Sut gall sefydliadau ddangos eu bod yn gymwys i wneud uwch-gŵyn;
- Y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud uwch-gŵyn;
- Y camau y bydd Ofcom fel arfer yn eu cymryd mewn perthynas ag uwch-gŵyn.

1.4 Rydym yn ymgynghori ar y canllawiau drafft hyn. Gallwch ddweud wrthym beth yw eich barn hyd at **3 Tachwedd 2025**. Ewch i Atodiadau 3-6 ai gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i ymateb i'n hymgynghoriad. Ar ôl i ni adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, byddwn wedyn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol mewn Datganiad ynghyd â fersiwn derfynol y ddogfen ganllawiau.

## Beth sy'n cael sylw yn y ddogfen hon

1.5 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi'r cefndir a'r cyd-destun y dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddarllen y canllawiau drafft ac wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'n nodi ein dull ar gyfer y canlynol:

- canllawiau uwch-gŵynion;
- y meini prawf cymhwysedd;
- sut mae sefydliad yn gwneud uwch-gŵyn;
- sut rydym yn delio ag uwch-gŵynion;
- cyhoeddi uwch-gŵynion a'n hymateb;
- gwybodaeth rydym wedi'i chynnwys yn y canllawiau ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig.

1.6 Yn yr Atodiad, mae rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Asesiadau effaith;
- Sut mae ymateb i'r ymgynghori hwn;
- Egwyddorion ymgynghori Ofcom.

---

[1] Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.

[2] Rheoliadau Uwch-gŵynion (Materion Gweithdrefnol a Chymhwysedd) 2025.

yn ogystal â dalen gyflwyno'r Ymgynghoriad.

# 2. Canllawiau drafft: uwch-gŵynion diogelwch ar-lein

## Canllawiau uwch-gŵynion Ofcom

2.1 Pwrpas y drefn uwch-gŵynion o dan y Ddeddf yw caniatáu i sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau ar-lein ddod â thystiolaeth a ffeithiau cadarn i'n sylw am y niwed mwyaf sylweddol ar-lein a'r cyfyngiadau ar ryddid mynegiant sy'n codi ar wasanaethau ar-lein rheoleiddiedig.

2.2 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn creu ac yn cyhoeddi canllawiau am y broses uwch-gŵynion.[3] Rydym yn ymgynghori ar ein canllawiau drafft a gyhoeddir gyda'r ymgynghoriad hwn. Mae'r canllawiau drafft yn disgrifio ein dull o ymdrin ag uwch-gŵynion, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rydym wedi ceisio darparu canllawiau ar sut y byddwn yn dehongli termau a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth nad ydynt wedi'u diffinio yn y ddeddfwriaeth ei hun a gwneud penderfyniadau am gymhwysedd a derbynioldeb uwch-gŵynion yn ymarferol.

2.3 Mae uwch-gŵynion yn ymwneud â nodweddion gwasanaethau ar-lein rheoleiddiedig, neu ymddygiad darparwyr gwasanaeth, sy'n debygol o arwain at niwed sylweddol i ddefnyddwyr yn y DU neu aelodau o'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn datgan y dylai uwch-gŵynion ymwneud â nodweddion gwasanaethau neu ymddygiad darparwyr gwasanaethau (neu gyfuniad o nodweddion ac ymddygiad o'r fath) sy'n peri risg sylweddol o niwed sylweddol i, effaith niweidiol sylweddol ar hawliau i ryddid mynegiant, neu effaith niweidiol sylweddol ar ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn yn y DU[4] neu aelodau o'r cyhoedd (neu grŵp penodol o ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd o'r fath).[5]

2.4 Felly, dylai uwch-gŵynion ganolbwyntio ar y risg sylweddol o broblemau sylweddol a achosir gan nodweddion safleoedd ac apiau, neu ymddygiad y sefydliadau sy'n eu darparu, yn hytrach nag achosion unigol o gynnwys niweidiol. Mae materion o'r fath yn debygol o effeithio ar nifer, llawer, neu o bosibl bob un, o ddefnyddwyr gwasanaeth neu grwpiau o aelodau'r cyhoedd a chael effaith barhaus. Gall y materion hyn godi o sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu dylunio, eu llywodraethu, neu eu defnyddio/camddefnyddio, gan gynnwys sut mae gwasanaethau'n cael eu defnyddio gyda'i gilydd. Rydym yn egluro ymhellach ym mharagraffau 2.38-2.43 sut y gellid cymhwyso'r termau hyn a ddefnyddir yn y Ddeddf.

2.5 Rydym yn gobeithio y bydd uwch-gŵynion yn cefnogi rheoleiddio drwy nodi risgiau sylweddol i ddefnyddwyr neu'r cyhoedd. Mae'n debygol mai'r uwch-gwynion mwyaf

---

[3] Mae Adran 171(1) o'r Ddeddf yn nodi'r canlynol: (1) Rhaid i OFCOM gynhyrchu canllawiau ynghylch cwynion o dan adran 169, sy'n gorfod cynnwys canllawiau ynghylch y meini prawf a bennir mewn rheoliadau o dan adran 169(3), (b) materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chwynion o'r fath, ac (c) unrhyw agwedd arall ar gwynion o'r fath y mae OFCOM yn credu ei bod yn briodol eu cynnwys.

[4] Fel y nodwyd ym mharagraff 2.4 y canllawiau a'r troednodyn cysylltiedig, mewn perthynas â niwed, mae 'defnyddiwr' yn unigolyn yn y Deyrnas Unedig; mewn perthynas ag effeithiau niweidiol, mae 'defnyddiwr' yn cynnwys unigolion yn y Deyrnas Unedig ac endidau sy'n cael eu hymgorffori neu eu ffurfio o dan gyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Gweler hefyd adran 227(1) o'r Ddeddf.

[5] Adran 169(1) o'r Ddeddf.

effeithiol yw'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'n cylch gwaith a/neu'r dyletswyddau a osodir ar wasanaethau gan y Ddeddf.

2.6 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod gan sefydliadau ystod o nodau wrth wneud uwch-gŵyn. Gall uwch-gŵynion ymwneud â meysydd niwed sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â meysydd niwed presennol. Nid oes angen iddynt fod wedi'u cyfyngu i niwed nac effeithiau sy'n dod o dan y Ddeddf. Felly, nid ydym yn disgwyl y bydd Ofcom yn gallu gweithredu ar bob uwch-gŵyn a gawn. Er bod uwch-gŵynion yn broses statudol, nid ydynt yn rhoi unrhyw bwerau ychwanegol i Ofcom ymchwilio na gweithredu ar faterion y tu allan i'n cylch gwaith presennol. Byddwn yn ystyried pob uwch-gŵyn gan endidau cymwys sy'n bodloni'r meini prawf derbynioldeb, ond os yw'r pwnc y tu allan i'n cylch gwaith neu bwerau rheoleiddio, byddwn yn glir ynghylch hyn yn ein hymateb.

2.7 Mae gennym amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth gan bartneriaid a rhanddeiliaid allanol. Rydym yn egluro yn y canllawiau drafft bod uwch-gŵynion yn ategu'r ffynonellau gwybodaeth eraill hyn neu fathau eraill o ymgysylltu.

2.8 Rydym hefyd yn egluro'r gwahaniaeth rhwng cwynion unigol gan ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd ac uwch-gŵynion, a'n dulliau gweithredu ar gyfer y naill a'r llall. Nid oes gan Ofcom rôl o ran ymchwilio i gwynion unigol. Er y gall sefydliad gasglu tystiolaeth gan unigolion am eu profiadau ar-lein i lywio uwch-gŵyn, ni fwriedir i uwch-gŵyn fod yn fecanwaith ar gyfer cyfuno nifer o gwynion unigol. Dylid defnyddio tystiolaeth o brofiadau unigolion o wefannau ac apiau ar-lein i gefnogi dadl bod nodweddion penodol neu ymddygiad gwasanaethau yn arwain at risgiau sylweddol o niwed sylweddol neu effeithiau niweidiol.

2.9 Wrth ddatblygu ein dull gweithredu, rydym wedi ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr ac awdurdodau eraill sy'n delio ag uwch-gŵynion. Er enghraifft, mae'r canllawiau ar gyfer uwch-gŵynion am y system blismona yn annog cyrff dynodedig i ystyried yn ofalus y llwybr gorau ar gyfer y mater y maent am ei godi, ac a fyddai mecanweithiau cwynion presennol eraill yn cyflawni'r diben hwnnw.[6] Fel y nodir uchod, rydym o'r farn bod y drefn uwch-gŵynion yn fecanwaith pwysig i amrywiaeth o sefydliadau fynegi pryderon i Ofcom, ond rydym yn amlinellu ffyrdd eraill o ddod â materion i'n sylw yn y canllawiau. Dylai sefydliadau ystyried y llwybr gorau ar sail yr amgylchiadau.

2.10 Mae amrywiaeth o ymatebion y gallai Ofcom eu rhoi i uwch-gŵyn. Mae'r rhai o'r rhain wedi'u nodi ym mharagraff 2.63 isod. Rydym yn cyfeirio at uwch-gŵynion fel un o'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir i ganfod ac asesu materion cydymffurfio posibl ar gyfer camau gorfodi pellach gan Ofcom yn ein Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein.[7] Bydd Ofcom yn defnyddio ein fframwaith blaenoriaeth arferol wrth ystyried camau gorfodi, a byddwn yn ystyried uwch-gŵyn fel y byddem yn ystyried unrhyw ffynhonnell wybodaeth arall. [8] Edrychwch ar Ganllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein Ofcom i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn ystyried camau gorfodi.[9]

---

[6] Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, y Coleg Plismona ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, uwch-gwynion yr Heddlu.
[7] Adran 3.5 o'r Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein.
[8] Adran 3.9 o'r Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein.
[9] Ofcom, Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein Ofcom.

## Gwaith parhaus Ofcom o ran gweithredu'r Ddeddf

2.11 Adeg yr ymgynghoriad hwn, mae Ofcom yn dal i weithredu'r Ddeddf fesul cam. Fodd bynnag, bwriedir i'r canllawiau aros yn berthnasol drwy'r cyfnod gweithredu a thu hwnt i fersiynau o Godau a chynnyrch rheoleiddio eraill yn y dyfodol. Mae'n bosibl y byddwn yn diweddaru'r canllawiau o bryd i'w gilydd, yn enwedig i sicrhau bod sefydliadau sy'n ceisio gwneud uwch-gŵyn fod yn wybodus, ac i hyrwyddo gweithrediad effeithiol y mecanwaith.

2.12 Rydym yn nodi yn y canllawiau y gallai'r materion a godir mewn uwch-gŵyn ymwneud â (ond heb fod yn gyfyngedig i) chydymffurfiad gwasanaethau rheoleiddiedig â dyletswyddau diogelwch. Pan fydd uwch-gŵyn yn ymwneud â mater rydym yn credu y bydd dyletswyddau'r dyfodol yn dod i rym yn mynd i'r afael ag ef, byddwn yn dweud hynny yn ein hymateb.

2.13 Gall uwch-gŵyn ymwneud â mater y mae Ofcom eisoes yn ei ystyried ac yn bwriadu mynd i'r afael ag ef. Yn yr achos hwn, bydd ein hymateb yn nodi hyn, ond efallai na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno ymyriad i gyd-fynd â'n hymateb.

## Sut gall rhanddeiliaid godi materion gydag Ofcom

2.14 Fel rheoleiddiwr sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a thystiolaeth, mae'r wybodaeth, y dadansoddiadau a'r data sy'n cael eu rhannu â ni gan randdeiliaid allanol yn helpu i dynnu sylw at faterion a allai fod yn achosi niwed i ddefnyddwyr ar-lein yn y DU. Mae uwch-gŵynion yn adnodd ychwanegol a fydd yn ein helpu i wneud hyn, gan adeiladu ar amrywiaeth o lwybrau presennol sy'n bodoli i bobl a sefydliadau godi pryderon gyda ni.

2.15 Os yw sefydliad yn poeni am niwed parhaus, mae'n debyg mai'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu yw cysylltu ag Ofcom yn uniongyrchol gyda'u pryderon. Rydym eisoes yn derbyn gohebiaeth a chwynion rheolaidd gan fudiadau cymdeithas sifil yr ydym yn eu derbyn ac yn ymateb iddynt.

2.16 Os bydd rhywun sy'n gweithio yn y sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio yn dymuno codi mater neu wneud datgeliad chwythu'r chwiban, dylent yn gyntaf edrych ar ein polisi datgelu chwythu'r chwiban ac asesu ai'r broses chwythu'r chwiban yw'r mecanwaith priodol ar gyfer eu cwyn. Gall amddiffyniad o dan y polisi hwn fod yn berthnasol os yw'r achwynydd yn gymwys fel gweithiwr, contractwr neu gyflenwr, a bod y datgeliad yn cael ei wneud drwy'r sianelau priodol.

2.17 Pan fydd defnyddiwr neu aelod o'r cyhoedd yn dymuno cwyno am wasanaeth ar-lein, yn y lle cyntaf, dylid codi hyn yn uniongyrchol gyda'r gwasanaeth ar-lein dan sylw. Darparwyr gwasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i gwynion unigol, ac os yw'n briodol, i weithredu arnynt. Os yw unigolyn wedi gwneud hynny a'i fod yn dal yn bryderus, gall roi gwybod i Ofcom drwy ein porth cwynion ar-lein.[10] Er bod Ofcom yn cael cwynion gan ddefnyddwyr, nid oes ganddo'r pŵer i weithredu ar gwynion unigol nac ymchwilio iddynt nac i gyfarwyddo gwasanaethau i dynnu neu adfer cynnwys penodol. Mae cwynion gan ddefnyddwyr yn ein helpu i asesu a yw gwasanaethau rheoleiddiedig yn gwneud digon i ddiogelu eu defnyddwyr ac a ddylem gymryd unrhyw gamau.

## Gwneud y canllawiau'n hygyrch

2.18 Rydym wedi cynhyrchu taflen ffeithiau gryno syml i wneud y broses uwch-gŵynion yn ddealladwy i amrywiaeth eang o sefydliadau. Bydd angen i sefydliadau ddefnyddio'r

[10] Ofcom, Cwyno am wasanaethau ar-lein, gwefannau neu apiau

canllawiau llawn i lywio'r broses o gyflwyno eu huwch-gŵyn, ond nod y daflen ffeithiau yw helpu sefydliadau i ddeall yn gyflym beth yw uwch-gŵyn.

2.19 Rydym am i'n canllawiau fod yn hygyrch ac rydym yn croesawu adborth ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

## Y meini prawf cymhwysedd a'r dystiolaeth sydd eu hangen i gefnogi cymhwysedd

2.20 Bydd unrhyw sefydliad sy'n bodloni, ac sy'n gallu dangos tystiolaeth ar gyfer, yr holl feini prawf cymhwysedd yn gallu cyflwyno uwch-gŵyn i Ofcom.[11]

2.21 Rydym wedi ceisio cynnwys amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth y gall sefydliadau eu defnyddio i gefnogi eu hasesiad eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'u bod yn endidau cymwys. Nid oes angen i sefydliad ddarparu'r holl wybodaeth a restrir, ond bydd darparu nifer o ffynonellau yn helpu Ofcom i fod yn glir yn ein hasesiad ein hunain o gymhwysedd sefydliad. Os bydd yn rhaid i ni ofyn am ragor o wybodaeth, gall hyn arafu'r broses.

### Maen Prawf 1: Cynrychioli buddiannau defnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd

2.22 Mae'r Rheoliadau yn nodi bod yn rhaid i'r endid fod yn gorff sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau rheoleiddiedig,[12] neu aelodau'r cyhoedd, neu grŵp penodol o ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd o'r fath.

2.23 Rydym wedi darparu rhai enghreifftiau o'r mathau o bethau y gallai sefydliad eu gwneud i fodloni'r maen prawf hwn, fel darparu cyngor, ymgyrchu ar eu rhan, ac ymchwilio i'w profiadau. Nodwn fod amrywiaeth eang o weithgareddau y gallai sefydliad eu cyflawni er budd y rhai y mae'n ceisio eu cynrychioli, ac nid yw ein rhestr yn gynhwysfawr.

2.24 Rydym wedi nodi y gall grŵp o ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd at ddibenion y maen prawf hwn gynnwys grwpiau demograffig. Eto, nid ydym wedi ceisio bod yn gynhwysfawr.

2.25 Dylai sefydliadau egluro sut maent yn credu eu bod yn bodloni'r maen prawf hwn a darparu tystiolaeth ategol berthnasol. Rydym wedi rhestru rhai enghreifftiau o dystiolaeth ategol a allai fod yn berthnasol, ond gall ymgeiswyr ddarparu mathau eraill o dystiolaeth.

### Maen Prawf 2: Gweithredu'n annibynnol ar wasanaethau rheoleiddiedig

2.26 Mae'r Rheoliadau'n nodi mai'r ail faen prawf cymhwysedd yw bod cyfansoddiad yr endid a'r trefniadau ar gyfer ei lywodraethu a'i atebolrwydd yn golygu y gellir dibynnu arno i weithredu'n annibynnol ar wasanaethau rheoleiddiedig.

2.27 Mae'n bosibl bod rhai sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr, aelodau o'r cyhoedd neu grŵp penodol o ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn cael cyllid gan wasanaethau rheoleiddiedig a/neu fod ganddynt gynrychiolwyr o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n ymwneud â'u strwythurau llywodraethu. Mae'r Rheoliadau'n galluogi'r sefydliadau hyn i fod yn gymwys o hyd, ar yr amod eu bod yn bodloni'r maen prawf hwn fel

[11] Mae'r gofynion cymhwysedd hyn wedi'u nodi yn Rheoliadau Uwch-Gwynion Diogelwch Ar-lein (Materion Gweithdrefnol a Chymhwysedd) 2025 (y 'Rheoliadau').

[12] Fel y nodwyd ym mharagraff 3.8 o'r canllawiau a'r troednodyn cysylltiedig, mae 'defnyddiwr' yn cynnwys unigolion yn y Deyrnas Unedig ac endidau sydd wedi'u corffori neu eu ffurfio o dan gyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Mewn perthynas â chwynion a gyflwynir o dan adran 169(1)(a) sy'n honni niwed sylweddol i ddefnyddwyr, rhaid i'r gŵyn ymwneud â defnyddwyr sy'n unigolion yn y Deyrnas Unedig yn unig.

arall. Fodd bynnag, ni ddylai cynrychiolwyr o wasanaethau rheoleiddiedig allu dylanwadu ar benderfyniad sefydliad i wneud uwch-gŵyn. Rhaid i Ofcom fod yn fodlon nad yw trefniadau cyllido neu lywodraethu o'r fath yn atal y sefydliad rhag gweithredu'n annibynnol ar wasanaethau rheoleiddiedig.

2.28 Ein dull gweithredu yw asesu annibyniaeth uwch-achwynydd o wasanaethau rheoleiddiedig fesul achos. Byddwn yn canolbwyntio ar dystiolaeth sy'n dangos cryfder trefniadau llywodraethu'r endid i weithredu'n rhydd o fuddiannau gwasanaethau rheoleiddiedig.

### Maen Prawf 3: Cyfrannu'n sylweddol, fel arbenigwr, at drafodaethau cyhoeddus am faterion diogelwch ar-lein

2.29 Mae'r Rheoliadau'n nodi mai'r trydydd maen prawf yw bod yr endid yn cyfrannu'n sylweddol, fel arbenigwr, yn rheolaidd at drafodaethau cyhoeddus am unrhyw agwedd ar faterion diogelwch ar-lein.

2.30 Mae geiriad y maen prawf hwn yn galluogi sefydliadau profiadol a mwy newydd sy'n dangos arbenigedd mewn diogelwch ar-lein i fod yn gymwys, ar yr amod eu bod yn cyfrannu'n sylweddol, fel arbenigwr, at drafodaethau cyhoeddus am faterion diogelwch ar-lein. Rydym felly wedi awgrymu amrywiaeth o ffyrdd posibl y gall sefydliadau ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r maen prawf hwn. Mae'r enghreifftiau'n ceisio adlewyrchu'r ffaith y gallai sefydliadau fod yn cyfrannu at wahanol fforymau fel arbenigwr. Er enghraifft, gall rhai roi tystiolaeth i bwyllgorau seneddol, neu gall eraill gyhoeddi ymchwil, neu gyfrannu at gynadleddau. Mae'r Rheoliadau'n nodi na ddylid ystyried cynnwys a gynhyrchir gan yr unigolyn ar wasanaethau 'defnyddiwr-i-ddefnyddiwr' (fel cyfryngau cymdeithasol) fel tystiolaeth ar gyfer y maen prawf hwn.

### Maen Prawf 4: Rhoi sylw dyledus i ganllawiau uwch-gŵynion Ofcom

2.31 Mae'r Rheoliadau'n datgan mai'r pedwerydd maen prawf yw bod modd dibynnu ar yr endid i roi sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Ofcom o dan adran 171(2) o'r Ddeddf (hy y canllawiau rydym yn ymgynghori yn eu cylch).

2.32 Mae'n bwysig bod sefydliadau'n darllen canllawiau Ofcom er mwyn iddynt ddeall gofynion y Rheoliadau a chyflwyno uwch-gŵyn dderbyniol a pherthnasol. Bydd darllen y canllawiau yn lleihau'r risg o gyflwyno uwch-gŵyn annerbyniol a bydd yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth fwyaf defnyddiol a pherthnasol yn cael ei darparu wrth gyflwyno'r gŵyn. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi gwybodaeth am agweddau allweddol ar y weithdrefn a'r drefn gyflwyno, er mwyn i sefydliadau allu penderfynu a yw'n briodol cyflwyno sylwadau a chael dealltwriaeth gliriach o'r hyn i'w ddisgwyl yn ystod y broses.

2.33 Os bydd sefydliad yn darparu datganiad ei fod wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau, a'i bod yn ymddangos bod yr uwch-gŵyn wedi dilyn y broses a amlinellir yn y canllawiau a bod y cyflwyniad yn cynnwys yr wybodaeth rydym wedi cynghori y dylid ei chynnwys, byddwn yn fodlon bod y maen prawf hwn yn cael ei fodloni.

2.34 Rydym yn argymell yn gryf bod sefydliadau'n adolygu canllawiau terfynol Ofcom cyn gwneud uwch-gŵyn.

### Uwch-gŵynion sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd

2.35 Nodwn y gallai sefydliadau fod eisiau cyflwyno uwch-gŵyn ar y cyd, neu ddarparu cefnogaeth ar gyfer uwch-gŵyn a wneir yn bennaf gan sefydliad arall. Dim ond cymhwysedd y prif sefydliad y bydd Ofcom yn ei asesu.

# Sut mae sefydliad yn gwneud uwch-gŵyn

## Cyn gwneud uwch-gŵyn a chyn ymgysylltu

2.36 Yn y canllawiau drafft, rydym yn argymell ymgysylltu â ni'n gynnar, yn enwedig lle gallwn roi cyngor ar uwch-gŵynion parhaus a allai orgyffwrdd ag uwch-gwynion neu faterion eraill y mae Ofcom, neu reoleiddiwr arall, eisoes yn eu hystyried. Mae dogfennau canllaw ar fecanweithiau uwch-gŵynion eraill hefyd yn annog ymgysylltu cynnar, fel mecanwaith uwch-gŵynion y system blismona, er mwyn helpu darpar achwynwyr i wneud cyflwyniad o ansawdd gwell ac i helpu achwynwyr i benderfynu ai gwneud uwch-gŵyn yw'r llwybr gorau iddynt ei ddilyn.[13]

2.37 Rydym yn gofyn i sefydliadau ddarparu crynodeb lefel uchel o'u cwyn y gall Ofcom ei gyhoeddi a chadarnhau a ydynt yn fodlon i Ofcom gyhoeddi eu cyflwyniad llawn. Bydd hyn yn helpu i ddarparu tryloywder i'r cyhoedd am y materion mae Ofcom yn eu hystyried. Bydd hyn hefyd yn helpu sefydliadau eraill i weld pa faterion mae Ofcom eisoes yn eu hystyried, wrth baratoi eu huwch-gŵynion eu hunain.

## Dehongli termau yn y Ddeddf

2.38 Rydym wedi cyfeirio at ddiffiniadau yn y Ddeddf. Fel y nodwn yn y canllawiau drafft, nid yw rhai termau wedi'u diffinio yn y ddeddfwriaeth, a gellir dehongli'r rhain mewn gwahanol ffyrdd. Er mwyn helpu sefydliadau sy'n ceisio gwneud uwch-gŵyn, rydym wedi cyflwyno ein dehongliadau o'r termau hynny ar sail ein dealltwriaeth o fwriad y polisi.

2.39 Mae'r disgrifiadau hyn yn gyson â dehongliad Ofcom o dermau tebyg yn y Ddeddf, yn enwedig 'risg sylweddol o niwed sylweddol', sef y trothwy ar gyfer y diffiniad o gynnwys heb ei ddynodi sy'n niweidiol i blant.[14]

2.40 Mae ein dehongliad o 'risg sylweddol' yn gyson â'n dehongliad yng nghyd-destun cynnwys heb ei ddynodi, sy'n golygu'r tebygolrwydd y bydd niwed neu effaith niweidiol yn digwydd oherwydd y nodwedd neu'r ymddygiad. Mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer uwch-gŵynion am nodweddion neu ymddygiad sydd, yn ôl pob golwg, yn peri risg sylweddol o achosi niwed sylweddol neu effaith niweidiol. Felly, nid oes angen tystiolaeth bendant bod niwed yn cael ei achosi, ar yr amod bod tystiolaeth sy'n dangos ei bod yn debygol iawn y bydd niwed yn cael ei achosi gan y nodwedd neu'r ymddygiad. Mae hyn yn caniatáu i Ofcom ystyried materion mewn ffordd ragweithiol, cyn i niwed ddigwydd. Mae hefyd yn cyfrif am y realiti bod sefydlu perthynas achosol rhwng ymddygiad ar-lein a niwed yn heriol.

2.41 Fodd bynnag, mae'r term 'niwed sylweddol' ychydig yn wahanol yng nghyd-destun y broses uwch-gwynion. Yn y cyd-destun hwn, gall 'niwed' ac 'effaith niweidiol' effeithio ar unrhyw unigolion neu grwpiau (yn hytrach na dim ond plant) a gallant godi nid yn unig o gynnwys niweidiol, ond hefyd o ffynonellau eraill o niwed.

---

[13] Uwch-gwynion yr heddlu – GOV.UK.

[14] Gweler Adran 10 ac 11 y Gofrestr Risgiau Plant (Ofcom, Cofrestr Risgiau Plant) a Rhan 3, Adran 2 y Canllawiau Asesu Risgiau Plant a Phroffiliau Risg (Ofcom, Canllawiau Asesu Risgiau Plant a Phroffiliau Risgiau Plant). Mae ein penderfyniadau ar gynnwys heb ei ddynodi ar gael yn Ofcom, Datganiad: Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein Rhifyn 2:Achosion ac effeithiau niwed ar-lein i blant, Adran 4, paragraffau 4.109-4.156. Mae'r dull gweithredu ar gyfer cynnwys heb ei ddynodi yn cael ei egluro ymhellach yn Ofcom, Ymgynghoriad: Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein Rhifyn 3:Achosion ac effeithiau niwed ar-lein i blant, Pennod 7.9.

2.42 Rydym o’r farn bod yn rhaid i’r term ’effaith niweidiol’ gael ei anelu at gwmpasu mathau o niwed nad ydynt yn cael eu cynnwys yn niffiniad y Ddeddf o niwed (sef niwed corfforol a seicolegol). Rydym yn rhagweld mai’r effeithiau niweidiol mwyaf perthnasol a allai fod yn destun uwch-gŵyn fyddai niwed cymdeithasol, fel effeithiau a achosir gan gamwybodaeth/twyllwybodaeth neu risgiau i’r broses ddemocrataidd, neu risgiau sy’n gysylltiedig â nodweddion sy’n annog defnydd gormodol.

2.43 Er mwyn helpu i ddangos beth mae’r termau hyn yn ei olygu’n ymarferol, rydym wedi darparu rhai enghreifftiau dangosol ym mharagraff 4.22 y canllawiau drafft. Nid oes rhaid i sefydliadau gyflwyno uwch-gŵynion ar y pynciau hynny na chael eu fframio felly.

## Uwch-gŵynion yn ymwneud ag un gwasanaeth/darparwr a rhai arbennig o bwysig

2.44 Pan fo uwch-gŵyn yn ymwneud ag un gwasanaeth rheoleiddiedig neu un darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig, yna mae’n rhaid i’r uwch-gŵyn egluro (i) pam mae’r gŵyn yn arbennig o bwysig, neu (ii) sut mae’r gŵyn yn ymwneud â’r effeithiau ar nifer arbennig o fawr o ddefnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau o’r cyhoedd.[15]

2.45 At ddibenion adran 169(2) o’r Ddeddf, nid yw ‘arbennig o bwysig’ wedi’i ddiffinio. Wrth asesu a yw cwyn yn cyrraedd y trothwy hwn, bydd Ofcom yn asesu fesul achos. Efallai y byddwn yn ystyried a yw’r mater yn ymwneud â mathau arbennig o ddifrifol o niwed, fel cynnwys anghyfreithlon, niwed i blant, neu a yw’n codi pryderon sydd â goblygiadau cymdeithasol ehangach. Mae’r dull hwn yn adlewyrchu’r bwriad y tu ôl i adran 169(2), sy’n gosod trothwy uwch ar gyfer cwynion sy’n ymwneud ag un gwasanaeth neu ddarparwr, sy’n mynnu bod naill ai nifer arbennig o fawr o ddefnyddwyr yn cael eu heffeithio neu fod y mater yn arbennig o bwysig.

2.46 Nid yw canllawiau uwch-gŵynion Ofcom yn awgrymu trothwy penodol ar gyfer nifer y defnyddwyr neu aelodau o’r cyhoedd y mae’n rhaid iddynt gael eu heffeithio er mwyn i fater fod yn gymwys fel uwch-gŵyn. Bydd Ofcom yn asesu pob achos yn unigol drwy bwyso a mesur ffactorau fel difrifoldeb y niwed a nifer y defnyddwyr yr effeithir arnynt er mwyn penderfynu a yw’r dystiolaeth yn dangos bod y mater yn arbennig o bwysig neu’n ymwneud ag effeithiau ar nifer arbennig o fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth neu aelodau o’r cyhoedd.

2.47 Mater i’r sefydliad sy’n gwneud uwch-gŵyn yw dangos pam mae’r uwch-gŵyn yn arbennig o bwysig, neu sut mae’r uwch-gŵyn yn ymwneud â’r effeithiau ar nifer arbennig o fawr o ddefnyddwyr un gwasanaeth/darparwr neu aelodau o’r cyhoedd.

## Tystiolaeth

2.48 Rydym wedi dewis defnyddio dull sy’n seiliedig ar egwyddorion i nodi sut gall y dystiolaeth sy’n cefnogi uwch-gŵyn fodloni gofynion y Rheoliadau. Mae’r Rheoliadau’n mynnu bod sefydliadau’n darparu digon o wybodaeth er mwyn i Ofcom allu gwirio bod unrhyw honiadau a wneir am y dystiolaeth yn yr uwch-gŵyn yn gywir, gan gynnwys ffynhonnell y dystiolaeth ac unrhyw ganfyddiadau penodol a nodir yn y gŵyn; gallu gwerthuso a dehongli’r dystiolaeth honno ein hunain; a bod yn fodlon bod y dystiolaeth:

a) yn berthnasol i’r uwch-gŵyn,
b) yn gyfredol, ac

[15] a.169(2) o’r Ddeddf.

c) yn wrthrychol.[16]

2.49 Mae'r dull hwn yn cynnwys yr ystod eang o wybodaeth y gallai sefydliad ei defnyddio i gefnogi ei ddadl. Nid ydym yn ceisio diystyru unrhyw ffynhonnell wybodaeth benodol ond rydym wedi drafftio'r egwyddorion ar sail ein dealltwriaeth o dystiolaeth 'berthnasol', 'gyfredol' a 'gwrthrychol'.

2.50 Dylai unrhyw honiadau a wneir mewn uwch-gŵyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth y gellir ei dilysu a'i chadarnhau. Mae hyn yn golygu, lle bynnag y bo modd, y dylid dyfynnu ffynonellau data yn glir, dylid egluro methodolegau, a dylai'r casgliadau gael eu hategu gan ddadansoddiad. Bydd hyn yn caniatáu i Ofcom asesu sail y gŵyn a deall sut mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r pryderon a godwyd, a sicrhau bod gennym sail gadarn ar gyfer gweithredu pellach, lle bo hyn yn bosibl ac yn briodol.

2.51 Nodwn fod dadl ar hyn o bryd ynghylch sut mae ymchwilwyr yn cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a reoleiddir, gan gynnwys defnyddio dulliau fel crafu.[17] Fel y nodwyd gennym yn y canllawiau drafft, dylai sefydliadau ystyried deddfwriaeth berthnasol (e.e. rheoliadau diogelu data) wrth ddewis dulliau ymchwil a chasglu tystiolaeth.

## Y broses gyflwyno

2.52 Bydd angen i sefydliadau sy'n cyflwyno uwch-gŵyn i Ofcom rannu gwahanol ddogfennau ag Ofcom. O ystyried natur sensitif bosibl y ffeiliau sy'n cyd-fynd ag uwch-gŵyn, mae'n bwysig bod ffordd ddiogel o rannu gwybodaeth ag Ofcom. Mae gennym eisoes borth cwynion ar gyfer defnyddwyr, ac mae'n bwysig nad yw'r broses cyflwyno uwch-gŵynion yn creu dryswch i aelodau o'r cyhoedd. Nid oes gan Ofcom borth cyhoeddus i sefydliadau allanol rannu ffeiliau â ni mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Mae hyn yn rhannol oherwydd y risg y bydd sefydliadau allanol neu aelodau o'r cyhoedd yn rhannu cynnwys niweidiol a/neu anghyfreithlon â ni.

2.53 Rydym yn cynnig creu ffurflen 'mynegi diddordeb' bwrpasol ar ein gwefan er mwyn i sefydliad allu rhoi gwybod i Ofcom ei fod yn ystyried gwneud uwch-gŵyn a'i fod eisiau cyflwyno gwybodaeth i ni. Bydd aelod o staff Ofcom yn cael y datganiad o ddiddordeb, yn gwirio nad yw'r cais wedi dod gan aelod o'r cyhoedd, ac yn ymateb cyn gynted â phosibl drwy ddarparu mynediad i flwch post pwrpasol ar gyfer derbyn uwch-gŵynion. Mae hyn yn caniatáu i sefydliadau nad ydynt eisoes mewn cysylltiad ag Ofcom gael ffordd o gysylltu â ni, heb y risg o greu dryswch i aelodau o'r cyhoedd.

2.54 Bydd y ffurflen yn helpu i hidlo cysylltiadau i'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn uwch-gwynion dilys yn unig.

2.55 Bydd gan rai sefydliadau fanylion cyswllt Ofcom yn barod. Rydym yn annog pob sefydliad sy'n dymuno cyflwyno uwch-gŵyn i fynegi ei ddiddordeb drwy'r ffurflen er mwyn gallu eu rheoli'n ganolog ac i helpu Ofcom i reoli cwynion yn effeithlon.

[16] Rheoliad 4(1)(g) o'r Rheoliadau: Rheoliadau Uwch-gwynion Diogelwch Ar-lein (Materion Gweithdrefnol a Chymhwysedd) 2025.

[17] Fel y trafodwyd yn adroddiad Ofcom ar Fynediad Ymchwilwyr at wybodaeth gan wasanaethau rheoleiddiedig

## Cyfyngiadau

2.56 Yn y canllawiau drafft, rydym yn nodi sawl senario lle na fydd Ofcom yn ystyried uwch-gŵyn yn ffurfiol, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny, mae'n bosibl y byddwn yn dal i ystyried a yw'r gŵyn yn codi materion y dylid eu hystyried y tu allan i'r broses uwch-gŵynion ffurfiol.

2.57 Os bydd sefydliad wedi'i ganfod yn anghymwys i wneud uwch-gŵyn yn y gorffennol, ni ddylai'r sefydliad hwnnw geisio gwneud uwch-gŵyn eto oni bai fod newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau sy'n golygu ei fod bellach yn ystyried ei fod yn gymwys.

## Templed cyflwyno

2.58 Rydym wedi creu templed safonol i'w lenwi wrth wneud uwch-gŵyn, er mwyn i sefydliadau allu sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth berthnasol i gefnogi uwch-gŵyn. Rydym yn argymell bod sefydliadau'n defnyddio'r templed hwn. Mae croeso i sefydliadau atodi rhagor o wybodaeth a thystiolaeth yn y fformat mwyaf priodol, ar yr amod bod Ofcom yn gallu ei gwerthuso a'i dehongli.

## Y broses ar gyfer sefydliadau y dyfarnwyd eu bod yn gymwys yn y gorffennol

2.59 Os yw Ofcom wedi dyfarnu bod sefydliad yn endid cymwys yn y gorffennol, gall y sefydliad wneud cais am asesiad cymhwysedd byrrach ar gyfer uwch-gŵynion dilynol a wneir o fewn pum mlynedd i'r diwrnod y rhoddodd Ofcom wybod i'r endid ei fod yn gymwys. Os yw'r endid cymwys yn dymuno cyflwyno uwch-gŵyn arall (ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheol chwe mis, gweler paragraff 4.49 o'r canllawiau drafft), yn hytrach nag ailgyflwyno'r dystiolaeth ategol, gall ddarparu datganiad na fu unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol a gofyn i Ofcom gwtogi'r cyfnod asesu cymhwysedd 30 diwrnod i 15 diwrnod.

2.60 Mae'r Rheoliadau'n mynnu bod sefydliad sy'n defnyddio'r llwybr hwn yn dal i ddarparu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r trydydd a'r pedwerydd maen prawf. Rydym wedi dewis defnyddio dull cyffyrddiad ysgafn o ailasesu cymhwysedd ac felly ni fyddwn yn gofyn am dystiolaeth newydd i brofi bod y trydydd maen prawf yn dal i gael ei fodloni. Fodd bynnag, dylai sefydliad barhau i ddarparu datganiad ei fod wedi ystyried y canllawiau.

2.61 Bydd gan Ofcom wedyn 15 diwrnod i ailgadarnhau ei gymhwysedd. Os oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol, bydd yn rhaid i'r endid gyflwyno gwybodaeth newydd er mwyn i Ofcom ailasesu ei gymhwysedd. Os bu newid mewn amgylchiadau sy'n golygu bod Ofcom o'r farn nad yw'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu bodloni mwyach, bydd Ofcom yn penderfynu nad yw'r sefydliad yn gymwys.

2.62 Bydd yr holl ofynion eraill ynghylch derbynioldeb uwch-gŵyn yn dal i fod yn berthnasol.

# Sut rydym yn delio ag uwch-gŵynion

2.63 Mae'r Rheoliadau'n nodi'r camau gofynnol y mae'n rhaid i Ofcom eu cymryd pan fyddwn yn cael uwch-gŵyn. Bydd yr union gamau a gymerwn a'n hymateb i uwch-gŵyn yn amrywio o ystyried testun uwch-gŵyn a'r amgylchiadau bryd hynny. Fel y nodir uchod ac yn y canllawiau drafft, mae amrywiaeth o ymatebion y gallai Ofcom eu cael i uwch-gŵyn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- camau rheoleiddio gan Ofcom (gan gynnwys dechrau cymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaeth rheoleiddiedig, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny);
- agor prosiect polisi i ystyried mesurau newydd y dylid eu cynnwys mewn Codau;
- cynnal rhagor o ymchwil defnyddwyr er mwyn deall y mater yn well;
- rhoi gwybod i reoleiddiwr, corff gorfodi neu awdurdod arall am yr uwch-gŵyn;
- cyfeirio'r mater at yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg pan fydd y mater y tu allan i gylch gwaith Ofcom;
- peidio â chymryd unrhyw gamau;
- canfod bod yr uwch-gŵyn yn ddi-sail.

2.64 Fel y nodir yn y canllawiau drafft, Ofcom fydd yn y sefyllfa orau i weithredu mewn ymateb i uwch-gŵyn pan fydd y mater yn rhan o'n cylch gwaith a phan fydd gennym bwerau perthnasol i fynd i'r afael ag ef.

2.65 Mae'n bosibl y byddwn yn grwpio ein hymateb i uwch-gŵynion gyda'i gilydd os ydynt o fewn yr un cyfnod ymateb ac yn ymwneud â materion tebyg, ond nid union yr un fath.

# Cyhoeddiad

2.66 Fel arfer, byddwn yn nodi ar wefan Ofcom pan fyddwn wedi cael uwch-gŵyn, ac yn cynnwys enw'r sefydliad, crynodeb o'r mater a godwyd, a statws presennol yr asesiad.

2.67 Mae'n bosibl y byddwn wedi ein cyfyngu mewn rhai achosion o ran yr hyn y gallwn ei rannu ag uwch-achwynydd a'i wneud yn gyhoeddus, fel gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliad gorfodi parhaus, gwybodaeth fusnes gyfrinachol neu wybodaeth gyfrinachol a rennir â ni gan bartneriaid.

2.68 Byddwn yn cyhoeddi ein hymatebion i bob uwch-gŵyn derbyniol ar ein gwefan. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i ni gyhoeddi crynodeb o'n hymateb, ond fel arfer byddwn yn ceisio cyhoeddi'r ymateb llawn rydym hefyd yn ei anfon at yr uwch-achwynydd.[18] Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi diweddariadau ar gamau dilynol a gymerwyd.

2.69 Fel corff cyhoeddus, rydym yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder am y gwaith rydym yn ei wneud ac rydym yn edrych ar sut rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am yr uwch-gwynion rydym wedi delio â nhw fel rhan o'n prosesau adrodd ehangach blynyddol.

## Datgelu gwybodaeth

2.70 Byddwn mor dryloyw â phosibl ynghylch yr uwch-gŵynion a gawn, ac rydym wedi egluro yn y canllawiau pa wybodaeth y byddwn fel arfer yn ceisio ei chyhoeddi. Rydym yn disgwyl i sefydliadau ystyried bod rhywfaint o'r wybodaeth maent yn ei darparu yn gyfrinachol ac rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelu gwybodaeth o'r fath. Yn y canllawiau drafft, rydym wedi nodi ein dull cyffredinol o ddatgelu gwybodaeth.

# Gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig

2.71 Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth lefel uchel ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig am yr hyn y gallant ei ddisgwyl os ydynt yn destun uwch-gŵyn.

[18] Rheoliad 9(1)(b) o'r Rheoliadau: Rheoliadau Uwch-gwynion Diogelwch Ar-lein (Materion Gweithdrefnol a Chymhwysedd) 2025.

2.72 Rydym o’r farn y bydd y camau a gymerwn mewn ymateb i uwch-gŵyn yn amrywio fesul achos felly nid ydym wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth benodol i wasanaethau os ydynt yn destun uwch-gŵyn.

2.73 Mae’n debygol y byddwn mewn rhai achosion yn cysylltu â darparwr gwasanaeth i gael rhagor o wybodaeth, ond efallai na fydd hyn bob amser yn angenrheidiol.

# A1. Asesiadau effaith

## Asesu effaith

A1.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

A1.2 Rydym o'r farn y gallai ein canllawiau arfaethedig gael effeithiau cadarnhaol ar ddinasyddion a defnyddwyr drwy helpu sefydliadau cymwys i gwyno am nodweddion neu ymddygiad sy'n peri risg sylweddol o achosi niwed sylweddol neu gael effaith niweidiol ar aelodau o'r cyhoedd. Rydym o'r farn nad yw'n debygol y bydd ein canllawiau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar fusnesau. Rydym o'r farn y gallai ein canllawiau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar endidau sy'n ystyried gwneud cwyn oherwydd y byddant yn helpu endidau o'r fath i benderfynu ar addasrwydd y mecanwaith uwch-gŵynion ar gyfer codi eu pryderon a'r wybodaeth y mae angen iddynt ei darparu i gyflwyno uwch-gŵyn effeithiol.

## Asesiad effaith cydraddoldeb a hawliau dynol

A1.3 Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd ein cynnig yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys, yn fras, hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfleoedd cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.[19]

A1.4 Rydym o'r farn y gallai'r canllawiau arfaethedig gael effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb drwy helpu sefydliadau i gyflwyno cwynion effeithiol am nodweddion neu ymddygiad gwasanaethau rheoleiddiedig sydd â risg sylweddol o achosi niwed sylweddol neu gael effaith niweidiol ar grwpiau penodol, gan gynnwys pobl ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig.

A1.5 Rydym hefyd wedi ystyried a allai ein canllawiau drafft gael unrhyw effaith ar hawliau dynol o ran dyletswyddau Ofcom o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i weithredu'n gyson â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Hawliau Dynol 1998). Yn benodol, rydym wedi ystyried a allai fod unrhyw effaith ar yr hawl i ryddid mynegiant.[20] Nid ydym yn credu y byddai unrhyw effeithiau niweidiol ar

[19] Mae rhagor o fanylion yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

[20] Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn yn egluro bod yr hawl i ryddid mynegiant yn cynnwys y rhyddid i gael barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus. Mae Erthygl 10(2) o'r Confensiwn yn datgan y gellir cyfyngu ar yr hawl hon mewn rhai amgylchiadau. Hawliau eraill a ddiogelir o dan y Confensiwn a allai fod yn berthnasol i swyddogaethau Ofcom o dan y Ddeddf yw'r hawl i breifatrwydd (Erthygl 8 o'r Confensiwn), yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 9 o'r Confensiwn) a'r hawl i ryddid ymgynnull a chymdeithasu (Erthygl 11 o'r Confensiwn).

hawliau'r Confensiwn o ganlyniad i'r canllawiau drafft, gan mai pwrpas y canllawiau hyn yw helpu i egluro i uwch-achwynwyr posibl a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, sut mae'r fframwaith cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf a'r Rheoliadau yn gweithio, a sut rydym yn bwriadu ei roi ar waith. Rydym o'r farn y gallai'r drefn uwch-gŵynion gael rhai effeithiau cadarnhaol ar hawliau dynol, yn enwedig yr hawl i ryddid mynegiant, yn enwedig pan fyddwn yn cael uwch-gŵynion sy'n tynnu sylw Ofcom at effaith niweidiol sylweddol ar yr hawl i ryddid mynegiant (sail y gŵyn a nodir yn a.169(1)(b) o'r Ddeddf), y gallwn wedyn ymateb iddi. Gall hyn fod yn wir hefyd os cawn ein rhybuddio am effeithiau sy'n effeithio ar hawliau eraill y Confensiwn. I'r graddau y bydd y canllawiau drafft yn helpu endidau cymwys i wneud uwch-gŵynion o'r fath i Ofcom, drwy ei gwneud yn gliriach sut y gallant wneud hynny, gall gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar hawliau'r Confensiwn. Rydym hefyd wedi egluro'n benodol yn y canllawiau drafft y dylai uwch-gwynion roi sylw i ystyriaethau sy'n berthnasol i'r hawl i breifatrwydd, sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfraith diogelu data'r DU. Eto, rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar yr hawl i breifatrwydd gan ei fod yn berthnasol i'r ffordd y mae achwynwyr yn casglu tystiolaeth i gefnogi eu huwch-gŵynion.

## Y Gymraeg

A1.6 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai sefydliadau gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a gyhoeddwyd i Ofcom wedi'u rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.[21]

A1.7 Rydym o'r farn y gallai'r canllawiau drafft gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd byddwn yn derbyn uwch-gŵynion yn Gymraeg ac yn ymateb yn Gymraeg. Ar ben hynny, bydd ein ffurflen mynegi diddordeb ar gyfer dechrau'r broses cyflwyno uwch-gŵyn hefyd ar gael yn Gymraeg, a bydd y broses a amlinellir yn y canllawiau yr un fath ar gyfer cyflwyniadau Cymraeg a Saesneg, ac ni fydd unrhyw oedi o ganlyniad i'r iaith y mae cyflwyniad wedi'i ysgrifennu ynddi na p'un a yw gwybodaeth yn cael ei chyflwyno drwy fersiynau Cymraeg neu Saesneg y ffurflen. Byddwn yn sicrhau bod fersiynau Cymraeg y canllawiau a'r ffurflen gyflwyno ar gael yn rhwydd yn y rhan berthnasol o'n gwefan. Felly, rydym o'r farn na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ganlyniad i'n cynigion, ac na fydd y cynigion yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gyfleoedd achwynwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid ydym yn credu bod unrhyw fesurau ychwanegol y gallem eu cymryd a fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

[21] Ofcom, 2017, Hysbysiad Cydymffurfio'r Swyddfa Gyfathrebiadau – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

# A2. Y fframwaith cyfreithiol

A2.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003') yn rhoi nifer o ddyletswyddau arnom y mae'n rhaid i ni eu cyflawni wrth weithredu ein swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys mewn perthynas â'n swyddogaethau diogelwch ar-lein.

A2.2 Prif ddyletswydd Ofcom o dan Ddeddf 2003 yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu, a buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.[22] Wrth gyflawni ein prif ddyletswydd, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried yr egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu at achosion lle mae angen gweithredu yn unig, ac unrhyw egwyddor arall sy'n ymddangos i ni fel yr arfer rheoleiddio gorau[23], fel y nodir yn Neddf 2003.

A2.3 Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') yn penodi Ofcom yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, gyda phwerau i weithredu a gorfodi'r drefn. Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Ofcom sicrhau bod dinasyddion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a achosir gan gynnwys ar wasanaethau ar-lein rheoleiddiedig, drwy ddefnyddio systemau a phrosesau priodol gan ddarparwyr gwasanaethau o'r fath sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o niwed o'r fath.[24]

A2.4 Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried (ymysg pethau eraill): y risg o niwed i ddinasyddion a gyflwynir gan wasanaethau rheoleiddiedig; yr angen iddi fod yn glir i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig sut gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau perthnasol; a'r angen i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig yn gallu cydymffurfio â dyletswyddau o'r fath drwy gymryd mesurau, neu ddefnyddio mesurau, systemau neu brosesau, sy'n gymesur â (i) maint neu gapasiti'r darparwr dan sylw, a (ii) lefel y risg o niwed a gyflwynir gan y gwasanaeth dan sylw, a difrifoldeb y niwed posibl.

A2.5 Mae'r Ddeddf yn creu categori o gwynion o'r enw uwch-gŵynion. Mae adran 169(1) o'r Ddeddf yn datgan y caiff 'endid cymwys' wneud cwyn i Ofcom: bod unrhyw nodwedd o un neu fwy o wasanaethau ar-lein rheoleiddiedig; unrhyw ymddygiad (gan gynnwys gweithredoedd ac anweithredoedd) gan un neu ragor o ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig; neu gyfuniad o nodweddion o'r fath ac ymddygiad o'r fath sy'n, neu'n ymddangos ei fod yn, neu'n peri risg sylweddol o'r canlynol:

a) achosi niwed sylweddol i unigolion yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaethau[25] neu aelodau'r cyhoedd, neu grŵp penodol o ddefnyddwyr o'r fath neu aelodau'r cyhoedd;

b) cael effaith niweidiol sylweddol ar yr hawl i ryddid mynegiant o fewn cyfraith defnyddwyr gwasanaethau yn y DU neu aelodau'r cyhoedd, neu grŵp penodol o ddefnyddwyr neu aelodau'r cyhoedd o'r fath;

c) fel arall yn cael effaith niweidiol sylweddol ar aelodau'r cyhoedd neu ddefnyddwyr yn y DU, neu ar grŵp penodol o ddefnyddwyr neu aelodau'r cyhoedd o'r fath.

---

[22] Adran 3(1) o Ddeddf 2003.
[23] Adran 3(3) o Ddeddf 2003
[24] Adran 3(2)(g) o Ddeddf 2003, fel y'i diwygiwyd gan adran 91(2) o'r Ddeddf.
[25] Adran 169(6) o'r Ddeddf

A2.6 Dim ond os yw Ofcom o'r farn bod (a) y gŵyn yn arbennig o bwysig, neu (b) bod y gŵyn yn ymwneud â'r effeithiau ar nifer arbennig o fawr o ddefnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau'r cyhoedd y mae uwch-gŵyn sy'n ymwneud ag un gwasanaeth rheoleiddiedig neu sy'n ymwneud ag un darparwr o un neu fwy o wasanaethau rheoleiddiedig yn dderbyniol.[26]

A2.7 Mae endid[27] yn 'endid cymwys' os yw'n bodloni'r meini prawf a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Rheoliadau Uwch-gŵynion Diogelwch Ar-lein (Materion Gweithdrefnol a Chymhwysedd) 2025 ('y Rheoliadau') yn nodi'r meini prawf cymhwysedd hyn a'r dystiolaeth ategol sydd ei hangen i ddangos cymhwysedd.[28] Mae'r rhain yn cael eu manylu a'u trafod yn Adran 3 y canllawiau drafft. Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, un o'r meini prawf cymhwysedd yn y Rheoliadau yw bod yn rhaid i'r endid fod yn gorff sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, neu aelodau o'r cyhoedd, neu grŵp penodol o ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd o'r fath.

A2.8 Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r gofynion i uwch-gŵyn fod yn dderbyniol a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud uwch-gŵyn.[29] Eglurir hyn yn Adran 4 y canllawiau drafft, gan gynnwys ffurf a dull cyflwyniadau a chyfyngiadau ar gyfer gwneud uwch-gŵynion. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r gofynion ar Ofcom ynghylch y terfyn amser ar gyfer cyhoeddi ei ymateb,[30] ac eglurir hyn yn Adran 5 y canllawiau drafft.

A2.9 Mae Adran 171 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y meini prawf cymhwysedd, materion gweithdrefnol ac unrhyw agweddau eraill ar uwch-gŵynion y mae Ofcom yn credu sy'n briodol eu cynnwys. Y canllawiau drafft y mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â hwy yw'r canllawiau sy'n ofynnol o dan adran 171 o'r Ddeddf.

[26] Adran 169(2) o'r Ddeddf

[27] Mae adran 236 o'r Ddeddf yn diffinio endid i olygu corff neu gymdeithas o bobl neu sefydliad, pa un a yw'r corff, y gymdeithas neu'r sefydliad wedi'i ffurfio o dan gyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu (b) yn berson cyfreithiol o dan y gyfraith y cafodd ei ffurfio oddi tani;

[28] Rheoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau.

[29] Fel sy'n ofynnol o dan adran 170 o'r Ddeddf. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 4-6 a 10 o'r Rheoliadau.

[30] Rheoliadau 7-9 o'r Rheoliadau.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch barn a'ch sylwadau am y materion a godwyd yn y ddogfen hon erbyn 5pm, 3 Tachwedd 2025

A3.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/online-safety/illegal-and-harmful-content/consultation-draft-guidance-for-super-complaints-under-the-online-safety-act-2023

A3.3 Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.4 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i SCconsultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 3 Rhagfyr.

A3.5 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Online Safety Group
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A3.6 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.7 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.8 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.9 Rydym yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.10 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys ateb uniongyrchol i'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiwn wedi'i restru yn Atodiad 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi egluro pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A3.11 Os hoffech chi drafod y materion sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â SCconsultation@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.12 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.13 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.14 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.15 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.16 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.17 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Ionawr 2026.

A3.18 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.19 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

A3.20 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.21 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym ni'n cynnal ein hymgynghoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**Cwestiwn 1:** A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein Canllawiau Uwch-gŵynion drafft?

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.